Multi Agency Public Protection Arrangements

# DYFED-POWYS



# Adroddiad Blynyddol 2018/19

# Rhagarweiniad

## Ian Barrow, Cyfarwyddwr, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru

Mae’n bleser gennym gyhoeddi Adroddiad Blynyddol MAPPA 2018/19 ar gyfer Bwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu’r Cyhoedd Dyfed Powys.

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r gwaith y mae’r Bwrdd Rheoli Strategol wedi’i wneud i wella effeithiolrwydd MAPPA yn ystod y flwyddyn o ran y ffordd y mae’n rheoli troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw i leihau aildroseddu a diogelu’r cyhoedd. Mae hefyd yn rhoi cyfle inni arddangos ein atebolrwydd i’r cymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu.

Mae diogelu’r cyhoedd yn hanfodol ar gyfer Awdurdod Cyfrifol MAPPA (Yr Heddlu, y Carchardai a’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ac mae popeth rydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch parhaus ein cymunedau. Mae troseddau rhyw a throseddau treisgar yn cynrychioli canran fechan o’r troseddau y mae’r pedair ardal heddlu yng Nghymru yn delio â hwy. Fodd bynnag, mae’r effaith andwyol mae’r digwyddiadau hyn yn ei gael ar ddioddefwyr ac ar gymunedau yn anferthol. Gallwn sicrhau aelodau o’r cyhoedd, gyda’r adroddiad hwn, bod y gwaith yn mynd ymlaen 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, i ddiogelu’r cymunedau rydym yn byw ynddynt.

Nid oes modd dileu’r risgiau mae troseddwyr difrifol yn eu peri yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, gellir disgwyl bod yr holl gamau rhesymol wedi’u cymryd i leihau’r risg o niwed difrifol i’r cyhoedd gan droseddwyr hysbys ynghyd â hyrwyddo ailsefydlu troseddwyr. Felly, ynghyd â chynnwys gwybodaeth ystadegol am y sawl sy’n cael eu rheoli gan MAPPA yn ystod y flwyddyn fusnes ddiwethaf, mae’r adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am sut mae’r trefniadau hyn yn gweithio’n ymarferol ar lefel leol.

Mae llwyddiannau’r Bwrdd Rheoli Strategol yn adlewyrchu’r cyfraniadau sylweddol a wneir gan yr holl asiantaethau sy’n chwarae rhan yn MAPPA ledled Dyfed Powys a hoffwn ddiolch i’n holl bartneriaid sydd wedi cyfrannu at y trefniadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r ystod eang o brofiad ac arbenigedd o reoli achosion MAPPA yn eithriadol o dda ac mae ymrwymiad yr asiantaethau i gyflawni’r safonau uchaf yn amlwg. Rydym hefyd yn ffyddiog bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff; nid yw eu gwaith heriol a chymhleth yn cael llawer o sylw yn gyhoeddus fel rheol. Mae eu hymroddiad yn allweddol i sicrhau bod ein cymunedau yn parhau i fod yn ddiogel.

Trwy argymell yr adroddiad hwn ichi, gobeithiwn ei fod yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i’n gwaith ac yn darparu sicrwydd mai ein prif flaenoriaethau dal i fod yw diogelu’r cyhoedd ac anghenion dioddefwyr.

## Mark Collins, Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed Powys

Mae’n bleser gennyf gyflwyno adroddiad Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu’r Cyhoedd (MAPPA) 2018-2019.

Gan edrych i’r dyfodol, rwy’n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod Heddlu Dyfed Powys yn dal ati i gefnogi’r broses MAPPA yn llawn, sy’n ein galluogi i weithio ar y cyd â phartneriaid i reoli’r risgiau sy’n gysylltiedig â throseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw sy’n byw yn ein cymunedau.

Hefyd, mae MAPPA yn darparu fframwaith cyfreithiol sy’n ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a diogelu’r cyhoedd mewn ffordd gydlynol sydd, yn ei dro, yn arwain at lunio cynlluniau rheoli risg sy’n berthnasol ac yn briodol.

Rwy’n fodlon bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu’r ymrwymiad parhaus gan yr holl asiantaethau sy’n rhan o MAPPA sy’n canolbwyntio ar ddiogelu’r cyhoedd, wrth hyrwyddo cymunedau diogelach yn ardal Heddlu Dyfed Powys.

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a threisgar gwaethaf (troseddwyr cymwys am MAPPA) o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Daw'r trefniadau â gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd yn un Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol (SMB) pob ardal MAPPA ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau DTC.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ac sy'n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol (lle mae'n rhaid iddynt fod yn byw a bod â chysylltiadau cryf) i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

## Sut y mae MAPPA yn gweithio

Mae troseddwyr cymwys am MAPPA yn cael eu pennu ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Yn yr achosion hyn cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd lle daw ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol ynghyd.

Mae tri chategori o droseddwyr cymwys am MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategori 1 na 2 ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae fwyaf angen eu targedu; fel arfer yn ymwneud â risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw rheolaeth asiantaethol arferol (h.y. rheolaeth gan yr asiantaeth arweiniol heb unrhyw gyfarfodydd MAPPA ffurfiol);
- **Lefel 2** yw lle mae angen i fwy nag un asiantaeth gyfrannu'n weithredol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn presenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau amddiffyn y cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr cymwys am MAPPA ar 31 Mawrth 2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 492 | 116 | - | 608 |
| Lefel 2 | 2 | 8 | 2 | 12 |
| Lefel 3 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 494 | 125 | 2 | 621 |

| Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 18 | 22 | 16 | 56 |
| Lefel 3 | 5 | 2 | 1 | 8 |
| Cyfanswm | 23 | 24 | 17 | 64 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 30 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 1 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu a osodir gan y llysoedd** | |
| SHPO | 55 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu (NO) | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu'n dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 0 |

| **Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i'r carchar** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 5 | 5 | 2 | 12 |
| Lefel 3 | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 6 | 6 | 3 | 15 |
| **Torri SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 0 | - | - | 0 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 0 | - | - | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 106 |

Cyfrifwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2018: Un flwyddyn oed a rhyw ar gyfer Ardaloedd Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio rhai o dan ddeg oed.

# Sylwebaeth esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfansymiau'r troseddwyr cymwys am MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2019 (h.y. ciplun a roddir ganddynt). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

**(a) Troseddwyr cymwys am MAPPA** – mae nifer o droseddwyr a ddiffinnir o dan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys am reolaeth MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu oherwydd eu bod ar y pryd yn cyflwyno risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli o dan drefniadau asiantaethol arferol (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond y troseddwyr cymwys am MAPPA sy'n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO)** - sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Gallant hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu'r gwasanaethau iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd a gall arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Tîm Troseddwyr Ifanc neu gan Wasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** - troseddwyr nad ydynt yn disgyn i'r ddau gategori cymwys am MAPPA arall ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu gan ba un bynnag asiantaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb drostynt.

**(e) Torri trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau tor-trwydded a gall y troseddwr gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi disodli'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar, ac sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'r gorchymyn yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi eu manylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 Deddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen y gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), rhaid i'r prif swyddog / NCA fod yn gallu dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw deg, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu ar gyfer troseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

**(h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).**
Mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer unigolyn sydd heb ei gael yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gall y SRO gael ei wneud mewn llys ynadon ar gais yr heddlu neu'r NCA lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion agored i niwed dramor.

Gall SRO wahardd unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn, gan gynnwys mynd dramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, amddiffyn plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn gyda SRO hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw a'u cyfeiriad cartref o fewn tridiau i wneud y gorchymyn a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon o fewn tridiau.

Mae SRO yn gallu para am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, bara am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r unigolyn dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ddiddymu'r gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Lle mae unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion gyda SRO erbyn hyn yn cael eu cofnodi ar VISOR fel Person Peryglus Posib (PDP).

**(i) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais**
Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol o ganlyniad yn golygu bod trefniadau bellach yn eu lle sy'n gadael i droseddwyr rhyw cymwys wneud cais i adolygu eu gofynion hysbysu. Ni fydd unigolion yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu i adolygu eu gofynion hysbysu penagored. Bydd yr heddlu yn adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid dileu'r gofynion hysbysu ai peidio. Uwch-arolygydd fydd yn gwneud y penderfyniad hwn. Bydd y rhai sy'n parhau i beri risg sylweddol yn aros ar y gofrestr trwy gydol eu hoes, os bydd angen.

Bydd unigolion gyda gofynion hysbysu amhenodol ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc. Daeth hyn i rym ar 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

# Tudalen leol

## Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS):

### Amanda Corrigan, HMPPS, Llywodraethwr – CEM Abertawe
### Christine Harley, HMPPS, Pennaeth yr Uned Gyflawni Leol – Gwasanaeth Prawf

Mae diogelu'r cyhoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (HMPPS) yn Nyfed Powys ac mae cymryd rhan yn y broses MAPPA ac ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Strategol yn bwysig iawn. Mae HMPPS wedi elwa o'r gwaith partneriaeth da gydag asiantaethau eraill wrth reoli troseddwyr. Mae hyn wedi'i adlewyrchu gan ymrwymiad partneriaid i fynychu cyfarfodydd, a fydd yn cael eu trefnu ar fyr rybudd weithiau, i sicrhau bod gennym gynlluniau rheoli risg cadarn mewn lle.

Mae staff y gwasanaeth prawf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau hyfforddi a drefnwyd gan yr uned MAPPA. Mae hyfforddiant wedi bod ar gael i gadeiryddion MAPPA sy'n newydd i'r rôl.

Mae rhai o staff y gwasanaeth prawf wedi'u lleoli ym Mhencadlys yr Heddlu yn adran diogelu'r cyhoedd, gan ddarparu cyfle i sicrhau bod gan Dyfed Powys systemau effeithlon ar gyfer cyfathrebu â charchardai yng Nghymru a Lloegr ac yn cysylltu â MAPPA yn amserol.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn yr Uned Gyflawni Leol (LDU) yn Nyfed Powys, sy'n rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, wedi bod yn cefnogi'r broses o roi'r Model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) ar waith. Nid oes gan LDU Dyfed Powys garchar sydd wedi'i leoli yn yr ardal, felly ar gyfer y rhai hynny sy'n cyflawni dedfryd o garchar sy'n dod o gymunedau o fewn Dyfed Powys, bydd y model OMiC yn golygu bydd y rhai hynny sydd â dedfryd sy'n hirach na 10 mis yn cael eu rheoli yn y ddalfa.

Mae Tîm Diogelu'r Cyhoedd y Carchardai wedi cryfhau o ganlyniad i gyflwyno'r OMiC, gan ddod ag uwch swyddog o'r gwasanaeth prawf i'r carchar i weithio gyda Rheolwyr Troseddwyr y Carchardai fel Pennaeth Cyflawni'r Uned Rheoli Troseddwyr. Mae hyn wedi hwyluso defnyddio rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli i rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon a byddwn yn adeiladu ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r lefel uwch o brofiad hefyd wedi helpu staff y carchardai i ystyried ffactorau risg y tu allan i'r carchar yn well, ac er ein bod megis dechrau, disgwylir y byddwn yn gweld lleihad yn y risg o bobl yn dioddef niwed difrifol.

## Vicki Evans, Prif Gwnstabl Cynorthwyol a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol

Mae Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) MAPPA Dyfed Powys yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol o weithgareddau MAPPA o fewn Dyfed Powys. Dros y 12 mis diwethaf yn fy rôl fel Cadeirydd y SMB mae wedi bod yn wych gweld y fath lefel o ymroddiad a'r holl waith caled a wneir yng nghyswllt gwaith MAPPA. Mae'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau Ddyletswydd i Gydweithredu dan ddyletswydd statudol i gydweithio'n agos i reoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar yn effeithiol i gefnogi ailsefydlu a diogelu ein cymunedau rhag niwed pellach. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a roddwyd gan ein cynghorwyr lleyg sy'n 'gyfaill critigol' i'r SMB a'r bartneriaeth, ac maent yn gallu craffu o safbwynt annibynnol a herio'n briodol.

Mae cryn gynnydd wedi digwydd hyd yma gyda datblygu gweithdrefnau diogelu'r cyhoedd rhyngasiantaethol trwy'r Ganolfan Diogelu'r Cyhoedd a WISDOM (Rheoli Integredig Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Cymru), sy'n gallu cynorthwyo gyda rheoli troseddwyr MAPPA. Mae'r maes pwysig hwn yn cyflwyno heriau wrth gwrs, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda fy nghyd-aelodau o'r SMB a phartneriaid strategol i barhau i adeiladu ar, a chryfhau gwaith MAPPA o fewn Dyfed Powys.

# Anthony Griffiths, Ditectif Uwcharolygydd, Heddlu Dyfed Powys

Mae'r Adran Diogelu'r Cyhoedd, sydd wedi'i lleoli ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys, yn darparu tîm canolog o staff arbenigol o'r heddlu a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i lywodraethu a chydlynu MAPPA a phrosesau eraill ar gyfer rheoli troseddwyr ledled y canolbarth a gorllewin Cymru. Mae hyn yn hwyluso dull effeithiol a chydlynol ar gyfer adnabod a rheoli risg, ynghyd â rhannu gwybodaeth a gweithgareddau diogelu. Mae'r Adran hefyd yn cysylltu timau'r heddlu a'r gwasanaeth prawf sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr o ddydd i ddydd ar draws yr ardal.

Mae'r gwaith a wneir ar gyfer y Datganiad Blynyddol Rheoli'r Heddlu (sy'n adnabod yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol) yn rhagweld cynnydd parhaus yn y nifer o droseddwyr sy'n eu cael yn euog o droseddau rhyw, ac o reidrwydd bydd yna gynnydd parhaus yn nifer y troseddwyr a fydd yn cael eu rheoli o fewn strwythurau MAPPA. O ganlyniad i hyn, mae trefnu adnoddau ar gyfer timau rheoli troseddwyr yn y dyfodol yn parhau i gael eu hystyried, gyda'r bwriad o fuddsoddi rhagor o arian i fodloni'r galw. Mae hyn yn cynnwys adolygu lefelau staffio a gwneud y gorau o ddefnyddio technoleg.

Mae'r swyddogion Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar (MOSAVOs) yn parhau i gael eu cefnogi gan dimau eraill o'r heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys yr Ymchwilwyr Troseddau Seiber a Chyfryngau Digidol, sy'n gallu craffu a monitro defnydd troseddwyr o ffonau symudol a'r rhyngrwyd. Mae timau targedu yn aml yn cael eu defnyddio i fwyhau gwaith y MOSAVOs i sicrhau cydymffurfiaeth â gorchmynion cyfyngol, tra bod y timau plismona yn y gymdogaeth yn chwarae rôl bwysig i gefnogi gwaith staff arbenigol o'r holl asiantaethau o fewn MAPPA. Mae hyn wedi arwain at lawer o ganlyniadau llwyddiannus, o ran atal troseddu pellach a hefyd yng nghyswllt adnabod a mynd i'r afael â thorri amodau gorchmynion cyfyngol a gofynion hysbysu.

Mae Heddlu Dyfed Powys yn parhau i weithio'n effeithiol â phartneriaid ac mae'n parhau i ymrwymo i reoli MAPPA yn effeithiol i leihau'r risgiau o fewn y gymuned.

# Nicola Rabjohns a Lyn Hambidge, Cynghorwyr Lleyg, Bwrdd Rheoli Strategol Dyfed Powys

Rydym yn hapus iawn ein bod wedi cynnwys gweithio at gapasiti llawn fel y ddau Gynghorydd Lleyg ar gyfer Dyfed Powys yn 2018/2019, a thrwy weithio gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cynnal presenoldeb rheolaidd yn y cyfarfodydd adolygu Lefel 2 a Lefel 3 ar draws y rhanbarth i roi safbwynt lleyg ar faterion a heriau allweddol yng nghyswllt risgiau y mae rhai o'r troseddwyr mwyaf arwyddocaol a difrifol yn eu peri.
- Darparu safbwynt "cyfaill critigol" o'n profiadau o gyfarfodydd MAPPA Lefel 2 i'r Bwrdd Rheoli Strategol. Roedd ein profiadau yn gadarnhaol ar y cyfan ond bu inni sôn hefyd am feysydd teimlwn y gellir eu gwella.
- Mynychu cyfarfodydd Lefel 1 yn y 6 mis diwethaf, gan ddarparu safbwynt lleyg unwaith eto. Hoffwn barhau i fynychu'r cyfarfodydd hyn ar draws y rhanbarth yn ystod 2019/20.
- Darparu safbwynt lleyg ar yr heriau strategol yng nghyswllt rheoli troseddwyr MAPPA.
- Cyfrannu at brosesau Sicrhau Ansawdd, gan adnabod meysydd posibl i'w mireinio a gwella'r broses o reoli a chofnodi cyfarfodydd adolygu.
- Cynnig syniadau adeiladol ar gyfer casglu data ansoddol ar berfformiad, sy'n canolbwyntio ar effaith y gwaith effeithiol a wneir gan asiantaethau i wella'r rheolaeth o droseddwyr yn y gymuned chanlyniadau'r troseddwyr hyn
- Gwella ein dealltwriaeth o gymhlethdod rheoli risgiau achosion MAPPA, a thrwy ymweliadau a chyfarfodydd â CEM Abertawe, Adeiladau Cymeradwy, gwrthderfysgaeth, Cydlynwyr Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd (COSA), Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM) a Swyddogion WISDOM.

Rydym wedi gweld bod asiantaethau sy'n gweithio i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau yn gorfod gwneud hynny wrth geisio cydbwyso amrywiaeth o ffactorau cyfreithiol, materion ynghylch adnoddau a phwysau gan ffactorau eraill. Mae rheoli troseddwyr yn effeithiol yn ddibynnol ar nifer o ffactorau ac rydym yn cydnabod mai rhai o'r ffactorau allweddol sy'n rhoi pwysau ar y broses, sy'n dod yn amlwg yn ystod trafodaethau MAPPA, yw problemau yng nghyswllt argaeledd ac addasrwydd adeiladau (yn cynnwys Adeiladau Cymeradwy), ynghyd â mynediad at ymyraethau a thriniaethau arbenigol a chyffredinol.

Rydym yn sicr bod angen codi proffil MAPPA i allu rhoi hyder i gymunedau bod yna brosesau mewn lle i reoli troseddwyr a bod hynny ond yn bosibl oherwydd y cydweithio ardderchog sy'n digwydd rhwng asiantaethau.

Manylion Cyswllt Cydlynydd MAPPA Dyfed Powys:

Rebecca Lewis
Cydlynydd MAPPA Coordinator (Dyfed-Powys)
Uned MAPPA Unit
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys Police HQ
Llangynnwr / Llangunnor
Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire SA31 2PF
Ffôn / Tel - 01267 226321

**Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn:**
**www.gov.uk**

National Probation Service

HM PRISON SERVICE

Heddlu Police DYFED-POWYS